# PAPURAU BUSNES

## 19 Hydref 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadl yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 12 Hydref 2000

**Pwnc Dadl Fer**

**NDM411 Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Y goblygiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn sgil clymblaid y grwp Llafur a grwp y Democratiaid Rhyddfrydol.

**NDM412 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

- croesawu cynlluniau’r Llyfrgell Genedlaethol i agor ei chasgliadau a’i gwasanaethau i fwy o ddefnyddwyr ac amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr, gan roi pwyslais arbennig ar gyrraedd y rhai hynny sy’n ymwneud â dysgu; ac i gydweithio â sefydliadau diwylliannol ac addysgol eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael;
- cefnogi cynnig y Llyfrgell Genedlaethol i ymgymryd â phrosiect ar raddfa eang i ehangu’r casgliadau a’r gwasanaethau y mae’n eu darparu i ddefnyddwyr mewn rhannau eraill o Gymru a ledled y byd, yn bennaf ar ffurf ddigidol dros y Rhyngrwyd;
- cymeradwyo polisi’r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddarparu cymorth ariannol er mwyn i bob llyfrgell gyhoeddus, ble y bo’n ymarferol, allu mynd ar-lein a chael ei chysylltu â’r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu erbyn diwedd 2002;
- annog pob awdurdod llyfrgell gyhoeddus, a’r Llyfrgell Genedlaethol, i atgyfnerthu a datblygu’u rôl o ran ymdrin ag anfantais gymdeithasol a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu.

**NDM413 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

Ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

**NDM414 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau yngln â'r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

(b) cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

**NDM415 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33 yn cymeradwyo copi drafft y Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Hydref 2000.

**Diwygiadau wedi'u Cyflwyno ar 16 Hydref 2000**

**NDM412**

**1. Owen John Thomas (Canol De Cymru);**

Ar ddiwedd pwynt bwled 3 ychwaneger 'ac y bydd yn monitro'r broses yn drwyadl'.

**2. Owen John Thomas (Canol De Cymru);**

Ychwaneger pwynt bwled 5 'Bydd yn sicrhau bod digon o rwydweithiau band llydan addas ar gael drwy Gymru fel y gellir ymgymryd â'r prosiectau hyn rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a Llywodraeth Leol'.